



Hawliau dinasyddion yr UE yng Nghymru

Yr hawl i dai

Mae'r daflen ffeithiau hon yn cynnwys crynodeb byr o hawliau dinasyddion yr UE yng Nghymru mewn perthynas â thai. Yn y daflen ffeithiau hon, mae 'dinasyddion yr UE' yn cynnwys dinasyddion aelod-wladwriaethau'r UE, yn ogystal â dinasyddion gwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein), a dinasyddion y Swistir.

Ymhellach, mae'r daflen ffeithiau hon yn ymdrin â hawliau aelodau teuluol nad ydynt yn ddinasyddion yr UE eu hunain, lle mae eu hawl i fyw yn y DU yn deillio o'u perthynas â dinesydd yr UE neu ddinesydd Prydeinig sydd wedi arfer hawliau rhyddid i symud fel gweithiwr, person hunangyflogedig, person hunangynhaliol neu fyfyrwr mewn gwlad letyol yn yr AEE yn union cyn dychwelyd i'r DU.¹

Yn dilyn ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd (**Brexit**), mae hawliau dinasyddion yr UE yng Nghymru wedi newid mewn rhai ffyrdd pwysig.

Rhaid oedd i ddinasyddion yr UE ac aelodau o'u teuluoedd a oedd yn byw yn y DU ar 31 Rhagfyr 2020, ac a oedd yn dymuno aros yng Nghymru, gyflwyno cais i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS), naill ai am Statws Preswyllydd Sefydlog (caniatâd amhenodol i aros) neu Statws Preswyllydd Cyn-sefydlog (caniatâd i aros am bum mlynedd). Nid oedd yn rhaid i ddinasyddion Iwerddon, na phobl a chanddynt ganiatâd amhenodol i aros, gyflwyno cais o'r fath. Yn achos dinasyddion yr UE ac aelodau

o'u teuluoedd na wnaethant gyflwyno cais, neu sydd â statws Preswyllydd Cyn-sefydlog sydd wedi dod i ben, nid oes ganddynt hawl mwyach i aros yn y DU a dylent gael cyngor cyfreithiol ar frys os ydynt yn dymuno aros yng Nghymru nawr.

Ni all dinasyddion yr UE a gyrhaeddodd y DU am y tro cyntaf ar, neu ar ôl, 1 Ionawr 2021 gyflwyno cais am Statws Preswyllydd Sefydlog na Statws Preswyllydd Cyn-sefydlog. Maent yn cyrraedd fel Ymwelwyr Tymor Byr. Os dymunant aros yn hwy nag ymweliad byr o hyd at chwe mis, rhaid iddynt gyflwyno cais am Fisa Tymor Hir (er enghraifft, i astudio, neu i weithio, neu i ymuno ag aelod o'u teulu). Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am Fisâu Tymor Hir yn: [Work in the UK – GOV.UK](https://www.gov.uk/work-in-the-uk).

Yn achos aelodau o deuluoedd dinasyddion yr UE nad ydynt yn dod o'r UE, dim ond os oes ganddynt drwydded deulu'r EUSS eisoes y gallant ddod i'r DU bellach. Nid yw trwydded deulu'r AEE, neu gerdyn preswyllo biometrig y DU, yn ddilys bellach yn y DU.

Bydd eVisa gan ddinasyddion sydd â cherdyn preswyllo biometrig (BRC) ac sydd wedi cael statws o dan Gynllun Preswyllo'n Sefydlog i'r UE.

Mae eVisa yn gofnod ar-lein o statws mewnfudo rhywun ac amodau eu caniatâd i ddod i mewn i'r DU neu aros ynddi, mae hefyd yn caniatáu i unigolyn rannu ei statws mewnfudo â thrydydd partïon pan fo angen.

¹ Gall 'aelodau teuluol' gynnwys eich priod neu eich partner sifil, eich plant, eich wyrion/wyresau a'ch gorwyrion/gorwyresau dan 21 oed, eich plant dibynnol dros 21 oed, eich rhieni, eich teidiau a'ch neiniau, eich hen deidiau a hen neiniau dibynnol, a rhai partneriaid dibriod a pherthnasau dibynnol eraill (pan fo Swyddfa Gartref y DU wedi rhoi tystysgrif cofrestru 'aelod o'r teulu estynedig').

A oes gan ddinasyddion yr UE hawl i brynu eiddo a bod yn berchen ar eiddo yng Nghymru?

Holl ddinasyddion yr UE

Mae hawliau dinasyddion yr UE i brynu eiddo a bod yn berchen ar eiddo yr un fath â hawliau dinasyddion y DU, ac ni ddylai perchnogion eiddo, banciau na benthycwyr morgeisi wahaniaethu yn erbyn dinasyddion yr UE ar sail eu dinasyddiaeth. Fodd bynnag, os nad oes ganddynt ganiatâd i aros (fel Statws Preswlydd Sefydlog neu Statws Preswlydd Cyn-sefydlog, neu Fisa Tymor Hir), efallai y bydd dinasyddion yr UE yn wynebu rhai rhwystrau o ran trefnu i brynu a bod yn berchen ar eiddo. Er enghraifft, mae gan ddinasyddion yr UE hawl i agor cyfrif banc yn y DU, ond efallai y gofynnir iddynt gyflwyno mwy o wybodaeth i ategu eu cais na dinesydd y DU.

Os bydd dinesydd yr UE angen cael morgais i brynu eiddo, ac os nad oes ganddo ganiatâd i aros neu mai caniatâd cyfyngedig i aros sydd ganddo (fel Statws Preswlydd Cyn-sefydlog neu Fisa Tymor Hir), efallai na fydd yn gymwys i gael rhai morgeisi, neu efallai y bydd benthycwyr morgeisi'n codi cyfradd uwch arno nag a godir ar ddinasyddion y DU.

A oes gan ddinasyddion yr UE hawl i rentu eiddo yng Nghymru?

Mae hawliau dinasyddion yr UE i rentu eiddo gan landlord preifat yr un fath â hawliau dinasyddion y DU. Ni ddylai landlordiaid wahaniaethu yn erbyn dinasyddion yr UE ar sail eu dinasyddiaeth, ac nid oes ganddynt hawl i wrthod gosod eiddo i ddinasyddion yr UE ar sail eu statws mewnfudo.

Os yw dinesydd yr UE yn destun rheolaeth fewnfudo, ni chaiff rentu tai cymdeithasol gan landlord awdurdod lleol na landlord cymdeithasol dai.

Bydd angen i ddinasyddion yr UE sy'n dymuno gwneud cais am dai cymdeithasol wneud hynny drwy'r broses ymgeisio ar gyfer eu hardal awdurdod lleol (a ddisgrifir yn aml fel cofrestr tai cyffredin). Bydd gofyn i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gymwys i wneud cais drwy ddarparu prawf o'u statws neu brawf o'u hawl i breswlyio sy'n gwneud dinesydd yr UE yn gymwys am dai.

Nid yw 'Cynllun Hawl i Rentu' Llywodraeth y DU yn berthnasol yng Nghymru. Yn ôl y Cynllun hwn, mae'n ofynnol i landlordiaid llety preifat yn Lloegr wirio statws mewnfudo pob tenant newydd.

A oes gan ddinasyddion yr UE hawl i gael mynediad at gymorth digartrefedd gan awdurdodau lleol yng Nghymru?

Mae rhai o ddinasyddion yr UE ac aelodau o'u teuluoedd yng Nghymru yn gymwys i gyflwyno cais i'w hawdurdod lleol am gymorth digartrefedd. Os yw dinesydd yr EU yn gymwys, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i atal y person hwnnw rhag dod yn ddigartref, ac os yw'n briodol, i sicrhau llety os yw'n dod yn ddigartref. Mae'n ofynnol hefyd i awdurdod lleol asesu risg ymgeisydd o fod yn ddigartref ac mae ganddo ddyletswydd i ddarparu llety dros dro os yw rhywun yn ddigartref neu'n cael ei fygwth â digartrefedd o fewn 56 diwrnod.

Pe bai awdurdod lleol yn gwrthod rhoi cymorth digartrefedd i ddinesydd yr UE, dylai'r dinesydd ofyn i'r awdurdod am reswm ysgrifenedig dros ei benderfyniad. Mae gan y dinesydd hawl i adolygu'r penderfyniad hwnnw, a dylai wneud hynny o fewn 21 diwrnod. Gallwch gael cyngor annibynnol i'ch helpu i wneud cais am adolygiad (gweler y ffynonellau isod). Efallai y bydd yr awdurdod lleol yn gofyn ichi dalu rhywfaint o gostau eich llety digartrefedd dros dro. Os na allwch fforddio'r costau hyn, dylech geisio cyngor ynglŷn â herio'r awdurdod lleol. Nid yw'n ofynnol ichi fod ar fudd-daliadau er mwyn cael llety digartrefedd dros dro.

Mae dinasyddion canlynol yr UE yn gymwys ar gyfer tai cymdeithasol a chymorth digartrefedd:

Dinasyddion yr UE sydd â Statws Preswlydd Sefydlog

Os oes gan ddinasydd yr UE Statws Preswlydd Sefydlog, bydd yn bodloni'r prawf 'hawl i breswlydd' yn awtomatig². Bydd yn gymwys ar gyfer tai cymdeithasol neu gymorth digartrefedd yng Nghymru, cyn belled â'i fod yn preswlydd fel arfer yng Nghymru³.

Dinasyddion yr UE sydd â Statws Preswlydd Cyn-sefydlog

Os oes gan ddinasydd yr UE Statws Preswlydd Cyn-sefydlog, rhaid iddo fodloni'r prawf 'hawl i breswlydd' er mwyn gweld a yw'n gymwys ar gyfer tai cymdeithasol neu gymorth digartrefedd. Yng Nghymru, efallai y bydd dinasydd yr UE yn gymwys os yw'n ceisio gwaith.

Bydd deiliaid statws Preswlydd Cyn-sefydlog nad ydynt yn gwneud cais am statws Preswlydd Sefydlog cyn y dyddiad y daw eu statws Preswlydd Cyn-sefydlog i ben, yn colli eu hawl i gael budd-daliadau a hawlogaethau, gan gynnwys mynediad at dai.

Dinasyddion yr UE a oedd yn preswlydd'n gyfreithlon yn y DU ar 31 Rhagfyr 2020 ac a wnaethant gais i'r EUSS

Yn achos dinasyddion yr UE a gyflwynodd gais i'r EUSS (hyd yn oed ar ôl y dyddiad cau) ac sy'n disgwyl clywed y penderfyniad, byddant yn parhau i fod yn gymwys i gael tai cymdeithasol neu gymorth digartrefedd hyd nes y cânt Statws Preswlydd Sefydlog neu Statws Preswlydd Cyn-sefydlog (neu tan nad ydynt yn gallu apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod eu cais bellach), cyn belled â'u bod yn dal i arfer hawliau'r cytuniad.

Yn dilyn gwneud cais i'r EUSS, rhoddir Tystysgrif Ymgeisio i unigolion i brofi eu statws gwarchoddedig wrth iddynt aros am ganlyniad eu cais.

Nid yw dinasyddion canlynol yr UE yn gymwys ar gyfer tai cymdeithasol na chymorth digartrefedd:

Dinasyddion yr UE a oedd yn preswlydd'n gyfreithlon yn y DU ar 31 Rhagfyr 2020 ac nad ydynt wedi cyflwyno cais i'r EUSS.

Dinasyddion yr UE a gyrhaeddodd am y tro cyntaf ar, neu ar ôl, 1 Ionawr 2021.

Dinasyddion yr UE y mae eu statws Preswlydd Cyn-sefydlog wedi dod i ben ac nad ydynt wedi gwneud cais am statws Preswlydd Sefydlog.

Os yw dinasydd yr UE yn cael anhawster i gael gafael ar lety, dylai geisio cyngor arbenigol (gweler y ffynonellau gwybodaeth isod). Os nad yw'n siŵr beth yw ei hawliau o ran bod yn berchen ar eiddo neu ei rentu, neu o ran cael gafael ar gymorth digartrefedd, dylai geisio cyngor cyfreithiol a'r cymorth sydd ei angen arno.

Newidiadau i wiriadau trydydd parti a gwasanaethau gwirio ar gyfer deiliaid statws Preswlydd Cyn-sefydlog

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi y bydd yn dileu dyddiad dod i ben statws cyn-sefydlog o'r proffiliau digidol a ddangosir i drydydd parti yn y gwasanaethau gwirio ar-lein ar gyfer Hawl i Weithio, Hawl i Rentu (nad yw'n berthnasol i drigolion Cymru) a Gweld a Phrofi (dyddiad gweithredu eto i'w gadarnhau). Dim ond un gwiriad cychwynnol y bydd yn ofynnol i gyflogwyr, landlordiaid ac asiantau gosod ei gynnal. Ni fydd angen cynnal gwiriad pellach o hawl i weithio neu rentu pan fo'r unigolyn yn parhau i gael ei gyflogi ganddynt neu fel rhan o'r cytundeb tenantiaeth hwnnw.

2 Yr hawl i breswlydd - GOV.UK (www.gov.uk)

3 Mae hyn yn golygu bod â bwriad sefydlog i aros yn y DU – [Durannu llety a digartrefedd: canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol | LLYW.CYMRU](#) (paragraffau 2.18 – 2.24)

Beth sy'n rhaid i drydydd partion sy'n gwirio statws ei wneud nawr?

- Rhaid i gyflogwyr a landlordiaid barhau i wirio bod gan y person y maent yn ei gyflogi neu'n rhentu eiddo iddo hawl i weithio neu rentu yn y DU. Mae'r gwiriadau hyn yn cael eu cynnal mewn perthynas â phobl o bob cenedligrwydd.
- Os oes gan yr unigolyn statws Preswlydd Cyn-sefydlog, gall y cyflogwr neu'r landlord/ asiant gosod gadarnhau ei hawl i weithio neu rentu drwy ddefnyddio gwasanaeth gwirio ar-lein y Swyddfa Gartref.
- Ar ôl cwblhau'r gwiriad cychwynnol o'r hawl i weithio neu rentu, ni fydd angen gwiriad dilynol pellach yn ystod y gyflogaeth neu denantiaeth.
- Ni fydd yn ofynnol bellach i awdurdodau trwyddedu sy'n cynnal "gwiriadau hawl i drwydded" yn unol â'r canllawiau i awdurdodau trwyddedu i atal gweithio anghyfreithlon yn y sector tacsis a cherbydau hurio preifat ailadrodd gwiriadau pan fo deiliad statws cyn-sefydlog yn gwneud cais i ymestyn neu adnewyddu trwydded bresennol. Dylai awdurdodau trwyddedu gadw copïau o wiriadau a gynhelir pan wneir cais am y drwydded.
- Bydd y newidiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu ar sgriniau'r gwasanaethau gwirio Hawl i Weithio, Hawl i Rentu a Gweld a Phrofi.
- Bydd canllawiau perthnasol hefyd yn cael eu diweddarau i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

Sut fydd hyn yn gweithio o ran deiliaid statws cyn-sefydlog?

Nid oes rhaid i ddeiliaid statws cyn-sefydlog gymryd unrhyw gamau o ganlyniad i'r newidiadau hyn.

Newid hyd yr estyniad statws cyn-sefydlog i 5 mlynedd

Bydd y Swyddfa Gartref yn cynyddu hyd estyniadau statws cyn-sefydlog o 2 i 5 mlynedd (dyddiad gweithredu eto i'w gadarnhau). Bydd hyn yn rhoi sicrwydd ychwanegol i ddeiliaid statws cyn-sefydlog o'u hawliau parhaus, yn sgil y dyfarniad.

Ni fydd hyn yn effeithio ar unrhyw un sydd eisoes â statws Preswlydd Sefydlog neu sydd wedi dod yn ddinesydd Prydeinig yn y cyfamser.

Sut fydd hyn yn gweithio o ran deiliaid statws cyn-sefydlog?

- Nid oes angen i ddeiliaid statws Preswlydd Cyn-sefydlog gymryd unrhyw gamau o ganlyniad i'r newid hwn.
- Bydd yr estyniad yn cael ei adlewyrchu yn eu statws digidol a bydd y Swyddfa Gartref yn cysylltu â nhw'n uniongyrchol i roi gwybod iddynt fod hyn wedi'i wneud. Nid oes angen iddynt gysylltu â'r Swyddfa Gartref.
- Rydym yn parhau i annog dinasyddion yr AEE ac aelodau o'u teuluoedd i wneud cais am statws Preswlydd Sefydlog o dan yr EUSS cyn gynted ag y byddant yn gymwys, i gael cadarnhad sicr o'u hawl i aros yn barhaol yn y DU. Gallwch wneud cais i newid i statws sefydlog yn rhad ac am ddim yn www.gov.uk/settled-status-eu-citizens-families/applying-for-settled-status. Mae amrywiaeth eang o gymorth a chefnogaeth ar gael i ymgeiswyr sydd ei angen.

Rhagor o gyngor a chymorth

Hawliau a chyfrifoldebau tenantiaid a sut i gyflwyno cais am dŷ: llyw.cymru/tai

Shelter Cymru

08000 495 495 (llinellau ffôn ar agor rhwng 9.30am – 4.00pm, dydd Llun i ddydd Gwener)
www.sheltercymru.org.uk / [gwladolion yr UE a'r AEE – Shelter Cymru](#)

Settled

Help – Settled

O'r DU, ffoniwch 0300 123 7379. Dydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau'r banc). 8am – 8pm.
 Dydd Sadwrn a dydd Sul: 9:30am i 4:30pm.

O'r tu allan i'r DU, ffoniwch +44 (0)203 080 0010. Dydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau'r banc).
 8am - 8pm. Dydd Sadwrn a dydd Sul: 9:30am i 4:30pm.

Cwestiynau Cyffredin am yr Hawl i Dai

Pwy sy'n gymwys i wneud cais am dŷ cyngor neu dŷ cymdeithas dai?

Mae cymhwysedd ar gyfer tŷ cyngor neu dŷ cymdeithas dai yn dibynnu ar eich cenedligrwydd, eich statws mewn fudo ac a ydych wedi bod yn byw dramor yn ddiweddar. Yng Nghymru, gall hefyd ddibynnu ar eich ymddygiad blaenorol.

Beth mae 'bod yn gymwys' yn ei olygu?

Ni all y cyngor neu'r gymdeithas dai eich rhoi ar rhestr aros:

- os nad ydych yn gymwys, neu
- os ydych yn cael eich trin fel rhywun anghymwys oherwydd ymddygiad annerbyniol difrifol.

Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n byw yn y DU yn barhaol yn gymwys, ond mae rhai eithriadau.

Nid yw bod yn gymwys yn golygu eich bod yn sicr o gael cynnig lle. Mae'n golygu bod gennych hawl i gael eich ystyried ar gyfer cartref ac y byddwch yn mynd ar y rhestr aros. Mewn llawer o ardaloedd, does dim llawer o dai ar gael, felly'n aml rhaid aros yn hir iawn am gynnig, ac mae'n bosibl na fydd rhai pobl byth yn cael cynnig.

A fydd gofyn imi ddarparu tystiolaeth o'm Statws Preswlydd Sefydlog?

Os ydych wedi cael statws preswlydd sefydlog neu breswlydd cyn-sefydlog o dan y Cynllun Preswlyo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS) yna byddwch yn gymwys i wneud cais am dai cymdeithasol neu gymorth digartrefedd. Bydd angen ichi ddangos eich statws digidol pan fyddwch yn gwneud cais.

Rwyf wedi gwneud cais i'r Cynllun Preswlyo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE cyn y dyddiad cau, 30 Mehefin 2021, ond heb gael penderfyniad eto

Dylech fod wedi cael tystysgrif ymgeisio sy'n profi'ch bod wedi gwneud cais dilys. Mae modd defnyddio'r dystiolaeth hon hyd nes y cewch benderfyniad. (Llythyr sydd â rhif cyfeirnod eich cais arno yw'r dystysgrif ymgeisio – mae'n cael ei anfon fel arfer i'r cyfeiriad e-bost y gwnaethoch ei ddefnyddio ar gyfer eich cais.)